



Annwyl rieni, gwarcheidwaid a gofalwyr,

Bydd eich plentyn yn gwneud penderfyniadau pwysig ar hyd ei daith yn y byd addysg, ac efallai ei fod eisoes wedi cyrraedd y cam o gymryd mwy o reolaeth a chyfrifoldeb dros gyflunio ei yrfa yn y dyfodol eisoes.

Gall Gyrfa Cymru eich cefnogi chi a'ch plentyn i wneud y penderfyniadau cywir a fydd yn ei helpu i gyflawni ei uchelgais gyrfa.

Mae hyn yn cynnwys ei gefnogi i: -

- [Ddewis pa bynciau, cyrsiau a chymwysterau](#) i'w hastudio ym mlynnyddoedd 10 ac 11;
- Deall mwy am [aros yn y byd addysg](#);
- Deall yr offer a'r adnoddau sydd ar gael megis [Cwis Buzz](#), [Cwis Paru Swyddi](#) a [CrefftGyrfaoedd](#) i gael syniadau am swyddi;
- Deall mwy am ddysgu seiliedig ar waith a [phrentisiaethau](#);
- Cael gwybod mwy am y [byd gwaith](#);
- Gwybod sut i [gysylltu â ni](#) i gael rhagor o wybodaeth, cyngor a chymorth.

Edrychwch ar yr [adran newydd i rieni ar ein gwefan](#) ble ceir mwy o wybodaeth am ein gwasanaethau, sut rydym yn eu darparu a sut y gallwch gefnogi eich plentyn gyda gwahanol gamau ei daith gyrfa.

**Pa fanylion rydym yn eu cadw a pham?**

Mae'n rhaid i ni gadw data personol am y cwsmeriaid rydym yn gweithio gyda nhw er mwyn i ni allu darparu ein gwasanaethau i'ch plentyn yn yr ysgol, y chweched dosbarth neu'r coleg.

Gallwn gysylltu â chi neu eich plentyn drwy e-bost, neges destun neu dros y ffôn i roi gwybod mwy i chi am ein gweithgareddau, digwyddiadau neu wybodaeth sy'n berthnasol i addysg eich plentyn a'i yrfa yn y dyfodol.

I gael gwybod mwy am sut rydym yn defnyddio data personol, gallwch ddod o hyd i'n hysbysiad preifatrwydd [ar-lein](#).

Os byddai'n well gennych dderbyn copi papur o unrhyw wybodaeth a nodir yma, cysylltwch â;

Rhiannon Churchill  
Cynghorydd Gyrfa | Careers Adviser  
Gyrfa Cymru | Careers Wales

Rhagenwau | Pronouns: Hi/Ei | She/Her

Symudol | Mobile: 07890 274819  
Gyrfa Cymru | Careers Wales: 0800 028 48 44

E-bost | E-mail: [rhiannon.churchill@gyrfacymru.llyw.cymru](mailto:rhiannon.churchill@gyrfacymru.llyw.cymru) |  
[rhiannon.churchill@careerswales.gov.wales](mailto:rhiannon.churchill@careerswales.gov.wales)  
Gwefan | Website: [gyrfacymru.llyw.cymru](http://gyrfacymru.llyw.cymru) | [careerswales.gov.wales](http://careerswales.gov.wales)

neu ffoniwch ni ar 0800 028 4844.

[Gyrfa Cymru](#)

---